Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Rhianta

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Gynllun Gweithredu Rhianta ym mis Rhagfyr 2005 sy'n nodi cynigion y Cynulliad ar gyfer cefnogi mamau, tadau a gofalwyr wrth fagu eu plant. Nod y cynllun yw codi proffil rhianta yng Nghymru, ymestyn datblygiad polisïau a gwasanaethau rhianta a chysylltu gyda pholisïau a gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i rianta.

Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn cynnwys pwyntiau gweithredu ar ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ar gyfer rhieni, hyrwyddo rhianta cadarnhaol ac ymgyfraniad rhieni mewn ysgolion. Medrir lawrlwytho'r Cynllun o wefan Plant yng Nghymru.

Mae'r dilynol yn rhoi diweddariad ar y cynnydd ar y pwyntiau gweithredu allweddol a gynhwysir o fewn y Cynllun Gweithredu Rhianta:

Llinell gymorth ffôn dwyieithog

Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu llinell gymorth ffôn ddwyieithog ar gyfer rhieni yng Nghymru.

Cynnydd: Bu Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn siarad gyda Parentline Plus ac NCH Cymru - bydd NCH Cymru yn rheoli'r gwasanaeth gyda chefnogaeth gan Parentline Plus. Bydd y llinell gymorth yn defnyddio rhif ffôn presennol Parentline Plus. Ariennir y gwasanaeth newydd drwy drosglwyddiad o gronfa Grant Cryfhau Teuluoedd y DFES. Dylai'r swm a drosglwyddir yn 2006-07 ddarparu costau sefydlu, gyda'r gwasanaeth yn dod yn llawn weithredol o fis Mehefin 2007. Mae trafodaethau pellach yn mynd rhagddynt gyda'r DfES am gyllid parhau rhwng 2008-09.

Llyfrynnau i rieni

Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu a dosbarthu cyfres o lyfrynnau ar gyfer pob rhiant newydd yng Nghymru yn ategu'r llyfrau 'Llyfr Beichiogrwydd' a 'Geni i Bump' presennol.

Cynnydd: Argraffwyd 100,000 copi o "O Amser Brecwast i Amser Gwely" (ar gyfer rhieni plant 0-5 oed) ac "Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant dan 10" (5-10 oed). Caiff "O Amser Brecwast i Amser Gwely" ei ddosbarthu gan ymwelwyr iechyd ar gyfer pob rhiant newydd o Ebrill 2006. Dosbarthwyd "Ymddygiad Dros Ben Llestri" drwy ddisgyblion Blwyddyn 1 mewn ysgolion cynradd ym mis Ebrill 2006 ac fe'u dosberthir eto ym mis Mawrth 2007. Mae digon o lyfrynnau i'w dosbarthu i rieni am ddwy flynedd. Aeth gweddill y llyfrynnau at Gwasanaethau a Gwybodaeth Plant a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i'w dosbarthu i rieni sydd â diddordeb ar sail ad hoc.

Medrir lawrlwytho'r ddau lyfryn o wefan Plant yng Nghymru.

Mae Plant yng Nghymru a 'Sdim Curo Plant! Cymru wedi paratoi drafft cyntaf llyfryn ar amgennau i ddisgyblaeth gorfforol a chaiff ei beilotio yn ystod y gaeaf. Caiff hyn hefyd ei ddosbarthu drwy ymwelwyr iechyd.

Neiniau a Theidiau

Cam Gweithredu: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu Gweithgor i ystyried adroddiad Sefydliad Beth Johnson ar neiniau a theidiau yng Nghymru a chynnig amlinelliad o Raglen Gweithredu.

Cynnydd: Cyfarfu gweithgor bychan ar Neiniau a Theidiau deirgwaith, ac wedi cynhyrchu adroddiad byr gydag argymhellion. Mae'r adroddiad gyda Gweinidogion i gael ei ystyried. Tybir y

caiff rhai o argymhellion y Grŵp eu hymgorffori mewn fersiwn a ddiweddarwyd o'r Cynllun Gweithredu Rhianta ym mis Hydref. Eir ag eraill ymlaen fel rhan o'r Strategaeth Pobl Hŷn a'r gwaith rhyng-genhedlaeth a oedd yn mynd yn ei flaen oddi tano.

Blynyddoedd Anhygoel

Cam Gweithredu: Yn 2006 -07 bydd y Cynulliad yn ariannu rhaglen hyfforddi yng Ngholeg Prifysgol Bangor i ymestyn cwmpas y rhaglen Blynyddoedd Anhygoel. Ariennir yr hyfforddiant drwy frigdorri cyllid Cymorth.

Cynnydd: Y pecyn gwreiddiol oedd 10 lle ar gyfer 12 Partneriaeth (120 lle i gyd), Oherwydd lefel y diddordeb dechreuol, mae'n debygol y cynigir pecynnau eraill yn 2007-08 fel y gall pob Partneriaeth sy'n dymuno hynny fanteisio. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi prynu pecynnau ar gyflenwi hyfforddiant ar gyfer pob Partneriaeth, a ddosberthir fel y caiff pobl eu hyfforddi.

SCIE/ Communities that Care

Cam Gweithredu: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu SCIE ('Social Care Institute for Excellence') i gynhyrchu gwybodaeth ar raglenni seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir yng Nghymru a fydd yn sail i benderfyniadau ar fuddsoddiad ar raglenni magu plant yn y dyfodol.

Cynnydd: Cynhaliwyd cyfarfod dechreuol gyda SCIE. Cytunodd SCIE i wneud hyn yn flaenoriaeth yn 2006-07, gyda ffocws arbennig ar ymarfer yng Nghymru. Yn ychwanegol, comisiynwyd Communities that Care i ddiweddaru "Ymagweddau Addawol" mewn cysylltiad â Dechrau'n Deg, a gynhwysir o fewn yr arweiniad Dechrau'n Deg.

Canllaw Ymarfer ar Gyfranogiad Rhieni

Cam Gweithredu: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu canllaw ymarfer i'w gynhyrchu ar gyfer Partneriaethau ar gyfranogiad a grymuso rhieni.

Cynnydd: Cafodd Jayne Isaac secondiad o NCH Cymru i'r Adran Strategaeth Plant i gynhyrchu'r llawlyfr ymarfer a ddosberthir ganol mis Medi 2006.

Ymgyfraniad rhieni mewn ysgolion

Cam Gweithredu: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Addysg Lleol, Estyn a chyrff llywodraethu ysgolion i hyrwyddo cyfranogiad rhieni mewn ysgolion.

Cynnydd: Dyma ran wannaf y Cynllun Gweithredu Rhianta ar hyn o bryd, i raddau helaeth na ddynodwyd arweinydd o fewn y Cynulliad i fynd ag ef yn ei flaen - roedd gan sawl isadran gyfrifoldebau penodol ynghylch ymgyfraniad rhieni. Dylai creu'r Grŵp Plant ac Ysgolion newydd o fewn yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau helpu i ddod â'r agenda ynghyd.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:
Lucy Akhtar, Swyddog Datblygu Rhianta – lucy.akhtar@childreninwales.org.uk
Tony Ivens, Swyddog Datblygu Tadolaeth – tony.ivens@childreninwales.org.uk